Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 08.04.2021

## Grant Cam 2 y Gronfa Adferiad Diwylliannol Llywodraeth Cymru ar agor

Mae Cam 2 y Gronfa Adferiad Ddiwylliannol bellach ar agor i geisiadau a byddant yn cau ar 20 Ebrill 2021 am 5:00pm. Bydd cymorth ar gael i sefydliadau fel theatrau, lleoliadau cerddoriaeth, mannau recordio ac ymarfer, atyniadau treftadaeth, sefydliadau treftadaeth, amgueddfeydd, llyfrgelloedd, orielau, archifau, sinemâu annibynnol, lleoliadau comedi a digwyddiadau i gwmpasu effaith barhaus y pandemig ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 30 Medi 2021. Defnyddiwch y Gwiriwr Cymhwysedd nawr i adolygu'r meini prawf cyn gwneud cais, ewch i:

https://fundchecker.businesswales.gov.wales/culturep2/cy

Bydd gwybodaeth am y cymorth pellach ar gyfer gweithwyr llawrydd ar gael yn y dyfodol agos.

## Arolwg Ar-Lein Cymru Iach ar Waith: Effeithiau’r pandemig Covid-19 ar iechyd ar hyn o bryd ac yn y dyfodol ar gyflogwyr a’u staff

Rhaglen Llywodraeth Gymru yw Cymru Iach ar Waith a ddarperir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i weithio gyda chyflogwyr i greu gweithleoedd iach ac i hybu iechyd da. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn awyddus i glywed gan ystod eang o sefydliadau yng Nghymru i ddeall effeithiau’r pandemig Covid-19 ar iechyd ar hyn o bryd ac yn y dyfodol ar gyflogwyr a’u staff. Bydd yr arolwg dwyieithog yn fyw tan 18 Ebrill 2021, ewch i:

https://www.opinionresearch.co.uk/PHWHWW

## Menter Môn: WORKPLACED

Mae WORKPLACED yn brosiect creu swyddi sy’n gosod unigolion mewn lleoliadau gwaith â thâl gyda busnesau lleol lle byddant yn derbyn profiad a hyfforddiant sy’n arwain at swyddi parhaol. Mae’n cynnwys siroedd Ynys Môn, Gwynedd, Sir Ddinbych a Chonwy ac yn caele igyflwyno gan Menter Môn. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.mentermon.com/priosectau/workplaced/

## Busnes@llandrillomenai: Cyrsiau Lletygarwch

Mae Busnes@llandrillomenai yn cynnig cyrsiau hyfforddiant ar gyfer y diwydiant Lletygarwch, Arlwyo a Thwristiaeth a fydd o fantais i’ch busnes wrth i chi baratoi i ailagor, ac maent ar gael i’w harchebu’n awr. Mae’r cyrsiau lletygarwch yma wedi’u hamserlennu hyd at Orffennaf 2021, y dyddiadau, prisiau a’r manylion ar gael yma:

https://bit.ly/3fYuqS5

- Os oes angen unrhyw wybodaeth bellach arnoch neu os hoffech drafod cyfleoedd cyllid, mae croeso i chi gysylltu ar 08445 460 460 neu anfonwch e-bost i busnes@gllm.ac.uk

# Barod i Recriwtio? Cynlluniau Cyflogaeth a Ariennir: Gweminar Busnes Cymru 13 Ebrill 2021

Mae Gwasanaeth Porth Sgiliau Busnes Cymru yn gwahodd Perchnogion Busnesau Cymru i'r gynhadledd unigryw ar y we yma a gynlluniwyd i helpu Perchnogion Busnesau Cymru sydd am gyflogi gan ddefnyddio cynlluniau cyflogaeth wedi'u cymell. Bydd siaradwyr gwadd o sefydliadau blaenllaw yn rhoi cipolwg ar fanylion yr amrywiol gynlluniau. Mi fydd y digwyddiad ar-lein am ddim yma yn cael ei gynnal ar 13 Ebrill 2021 o 10:00am – 11:30am ac yn cael ei gyflwyno yn Saesneg. Am fanylion, ac i gofrestru, ewch i:

https://wales.business-events.org.uk/cy/digwyddiadau/ready-to-recruit-funded-employment-schemes-webinar/

# Gweminarau Tendro Busnes Cymru

- Modiwl 1: Defnyddio GwerthwchiGymru i ddod o hyd i gyfleon cyflenwi

Dydd Mawrth 20 Ebrill 2021: 11.00am -1.00pm
Dydd Mawrth 11 Mai 2021: 11.00am -1.00pm

Bydd y gweminar yma yn roi cymorth ag arweiniad ymarferol ar ddefnyddio gwefan GwerthwchiGymru i ddod o hyd i gyfleon cyflenwi llwyddiannus i'ch cwmni chi. Am fwy o fanylion, ac i gofrestru, ewch i:

http://bit.ly/TendroModiwl1

- Modiwl 2: Y Broses Tendro – Sut i ymateb i Holiadur Cyn Cymhwyso (PQQ) a Gwahoddiad I Dendr (ITT)

Dydd Mawrth 27 Ebrill 2021: 11.00am -1.00pm
Dydd Mawrth 18 Mai 2021: 11.00am -1.00pm

Bydd y weminar yma yn roi cymorth ag arweiniad mewn datblygu eich sgiliau a gwybodaeth mewn tendro yn llwyddiannus am gytundebau yn y sector gyhoeddus a phreifat. Am fwy o fanylion, ac i gofrestru, ewch i:

http://bit.ly/TendroModiwl2

- Modiwl 3: Ysgrifennu Ceisiadau Tendr Uwch ac Ychwanegu Gwerth

Dydd Gwener 30 Ebrill 2021: 11.00am -1.00pm
Dydd Mawrth 25 Mai 2021: 11.00am -1.00pm

Bydd y weminar yma yn rhoi gwybodaeth a sgiliau uwch i chi ar greu cynigion tendro o ansawdd ar gyfer cytundebau yn y sectorau cyhoeddus a phreifat. Am fwy o fanylion, ac i gofrestru, ewch i:

http://bit.ly/TendroModiwl3

Mae'r gweminarau i gyd am ddim ac yn cael eu cyflwyno yn Saesneg. Gallwch hefyd gofrestru a chael rhagor o wybodaeth drwy ffonio: 01745 585025 neu e-bostio: northwales@businesswales.org.uk

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os oes gennych gwestiwn neu angen cyngor ebostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru